# Ci tair coes 'mewn cyflwr gwael'

**Mae gwarchodwyr anifeiliaid yn ceisio dod o hyd i berchnogion ci tair coes a gafodd ei adael mewn cyflwr echrydus.**



Cred yr RSPCA fod Charlie, sy'n gi bocser, wedi ei gloi mewn cwt ai adael cyn i warden cŵn y cyngor ddod â fo at orsaf yr heddlu yn Y Rhyl.

Roedd golwg ofnus a thruenus ar y ci oedd yn denau iawn ac roedd arno'r *clafr, meddai'r elusen.

Eu gwaith nawr yw ceisio dod o hyd i'r person anghyfrifol a adawodd y ci.

Dywedodd archwilydd yr RSPCA yn Sir y Fflint, Fred Armstrong, fod Charlie yn cael gofal mewn Lloches i anifeiliaid yn Trelogan ger Prestatyn.

"Ges i fraw wrth ei weld; roedd o mewn cyflwr difrifol," meddai Mr Armstrong.

Roedd y bocser canol oed wedi dioddef yn ofnadwy," meddai.

**Cosbi**

Dywedodd ei fod yn debygol fod milfeddyg wedi torri'r goes, efallai yn dilyn damwain.

"Roedd ei grafangau'n hir, mae'n debyg, am ei fod wedi cael ei gau mewn cwt am beth amser heb gael unrhyw ymarfer corff," meddai.

"Nid yw arolygwyr yn gweld achosion o greulondeb fel hyn yn aml," meddai Mr Armstrong, "a bydd y perchnogion yn cael eu cosbi os yw'r awdurdodau yn dod o hyd i nhw."

"Mae hyn yn greulondeb er mwyn creulondeb; oherwydd hynny mi fyddwn ni'n gweithredu."

Mae disgwyl i Charlie wella o fewn rhai wythnosau.

**Os oes gan unrhyw un wybodaeth amdano, dylid ffonio'r RSPCA ar 0870 5555999.**

* clafr = afiechyd ar y croen